# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Medi 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 229(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog – Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU

(5 munud)

**NDM8662** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 29.1 (Cydsyniad mewn Perthynas â Biliau Senedd y DU)', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Medi 2024.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 29.1, fel y nodir yn Atodiad A i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad – Pedwerydd adroddiad ar ddeg i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

(15 munud)

**NDM8661** Hannah Blythyn (Delyn)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad— Pedwerydd Adroddiad ar Ddeg i'r Chweched Senedd a osodwyd gerbron y Senedd ar 18 Medi 2024 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Terfynau cyflymder 20mya

(60 munud)

**NDM8667** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod y terfyn cyflymder diofyn o 20mya wedi bod ar waith yng Nghymru ers dros flwyddyn.

2. Yn nodi:

a) y 469,571 o bobl a lofnododd ddeiseb y Senedd: 'Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya';

b) y Memorandwm Esboniadol gan Lywodraeth Cymru ei hun ar gyfer Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) 2022, lle nodwyd anfantais economaidd o hyd at £8.9 biliwn yn sgil yr amseroedd teithio hirach a fyddai'n gysylltiedig â'r polisi terfyn cyflymder diofyn o 20mya;

c) sylwadau'r cyn-Ddirprwy Weinidog Trafnidiaeth y dylid bod wedi defnyddio mwy o synnwyr cyffredin wrth gyflwyno'r terfyn cyflymder 20mya yng Nghymru;

d) adroddiad monitro ansawdd aer Trafnidiaeth Cymru sy'n dangos, o ran hanner yr ardaloedd lle cynhaliwyd profion, y bu cynnydd mewn lefelau nitrogen deuocsid y tu mewn i'r parthau 20mya o'i gymharu â'r tu allan; ac

e) bod awdurdodau lleol Cymru wedi cael ceisiadau i newid miloedd o ffyrdd o 20mya yn ôl i 30mya.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i ddiddymu'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya; a

b) i weithio gydag awdurdodau lleol Cymru i gyflwyno dull wedi'i dargedu o bennu terfynau cyflymder o 20mya, sydd â chydsyniad pobl leol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd

1. Yn nodi:

a) bod y terfyn cyflymder rhagosodedig o 20mya wedi bod ar waith yng Nghymru ers dros flwyddyn; a

b) cefnogaeth drawsbleidiol flaenorol y Senedd ar gyfer cyflwyno terfynau cyflymder o 20mya yng Nghymru a phresenoldeb cynlluniau tebyg mewn cynghorau sy'n cael eu rhedeg gan y Ceidwadwyr yn Lloegr.

2. Yn credu, o'u gweithredu'n briodol ac yn rhesymegol, bod gan derfynau cyflymder 20mya rôl ddefnyddiol wrth wneud cymunedau'n fwy diogel a lleihau'r pwysau ar y GIG.

3. Yn gresynu at yr oedi gan Lywodraeth Cymru wrth weithredu ar welliant Plaid Cymru a gefnogir gan y Senedd, a fyddai wedi grymuso cymunedau ar unwaith i

adolygu a gwneud eithriadau pellach yn ogystal ag adolygu'r canllawiau i awdurdodau lleol.

4. Yn cydnabod cryfder teimladau ar y mater hwn o ganlyniad i weithredu, ymgysylltu a chyfathrebu anghyson ynghylch y newidiadau.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod yr adolygiad presennol yn mynd i'r afael â'r pryderon y gellir eu cyfiawnhau, a'i fod ag adnoddau digonol.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod y terfyn cyflymder diofyn o 20mya wedi bod mewn grym yng Nghymru ers dros flwyddyn.

2. Yn nodi:

a) y gostyngiad sylweddol mewn gwrthdrawiadau ac anafusion ers cyflwyno’r terfyn; a

b) y ffaith bod 469,571 o bobl wedi llofnodi deiseb y Senedd: ‘Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu’r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya’

c) y rhaglen gynhwysfawr o wrando a gynhaliwyd dros yr haf, gan ymgysylltu â phobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru yn ogystal â rhanddeiliaid allweddol;

d) y ffaith y bydd y gwaith monitro a gwerthuso parhaus yn casglu tystiolaeth o effeithiau’r polisi o ran yr economi, iechyd a’r amgylchedd;

e) y ffaith bod adroddiad monitro ansawdd aer Cam 1 Trafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2024 yn dangos nad oedd unrhyw effaith sylweddol ar ansawdd aer lleol hyd yma; ac

f) y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei darparu i awdurdodau lleol Cymru sydd wedi derbyn ceisiadau i newid y terfyn i 30mya ar rai ffyrdd.

3.  Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi awdurdodau lleol Cymru er mwyn cyflawni terfynau cyflymder 20mya trwy ddull targedu, gan sicrhau bod y terfyn mewn grym ar y ffyrdd cywir ble mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn chwarae.

## 8 Dadl Plaid Cymru – Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru

(60 munud)

**NDM8665** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi datganiad blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

2. Yn gresynu:

a) wedi 25 mlynedd o lywodraethu, na allai Llywodraeth Lafur ddiweddaraf Cymru nodi blaenoriaethau pobl Cymru heb 'ymarfer gwrando' a gychwynnwyd gan y Prif Weinidog; a

b) fod cerrig milltir, targedau a dyddiadau cyflawni yn absennol o ddatganiad blaenoriaethau'r Prif Weinidog.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) pennu amserlen ar gyfer lleihau rhestrau aros y GIG;

b) cyhoeddi cynllun cyflawni sy'n seiliedig ar yr ystod o 'flaenoriaethau'r bobl', yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gerrig milltir, targedau, a dyddiadau cyflawni;

c) cyflwyno Rhaglen Lywodraethu a Rhaglen Deddfwriaethol wedi'i diweddaru; a

d) anrhydeddu ei egwyddor 'partneriaeth mewn grym' drwy ddefnyddio'r holl sianeli rhynglywodraethol i bwyso ar Lywodraeth y DU am gyllid teg, datganoli Ystad y Goron ac i ddatganoli cyfiawnder yn llawn.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi datganiad blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

2. Yn cefnogi ffocws y Llywodraeth ar flaenoriaethu’r bobl ac yn cymeradwyo’r blaenoriaethau fel y’u nodwyd gan y Prif Weinidog.

3. Yn nodi ymhellach ymrwymiad y Prif Weinidog i ddarparu, maes o law, ragor o fanylion am sut y bydd y blaenoriaethau yn cael eu cyflawni.

4. Yn cymeradwyo ymrwymiad y Llywodraeth i:

a) iechyd da - lleihau amseroedd aros yn y Gwasanaeth Iechyd, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl, a gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwella gwasanaethau iechyd menywod;

b) swyddi gwyrdd a thwf - creu swyddi gwyrdd i sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a diogelu natur, a chyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru;

c) cyfle i bob teulu - hybu safonau yn ein hysgolion a'n colegau, a darparu rhagor o gartrefi ar gyfer y sector rhent cymdeithasol; a

d) cysylltu cymunedau - trawsnewid ein rheilffyrdd a darparu gwell rhwydwaith bysiau, trwsio ein ffyrdd, a grymuso cymunedau lleol i benderfynu ar y terfyn cyflymder 20mya.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrando ar y cannoedd o filoedd o bensiynwyr yng Nghymru a fydd yn cael eu heffeithio'n andwyol gan doriadau Llywodraeth y DU i daliadau tanwydd gaeaf;

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu is-bwynt 3(d) a rhoi yn ei le:

anrhydeddu ei egwyddor 'partneriaeth mewn grym' drwy ddefnyddio'r holl sianeli rhynglywodraethol i bwyso ar Lywodraeth y DU am symiau canlyniadol o HS2 i Gymru ac i fwrw ymlaen â thrydaneiddio prif reilffordd gogledd Cymru;

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8657** Hannah Blythyn (Delyn)

Diwedd y gân yw'r geiniog: sut all datganoli greu economi lewyrchus i weithwyr ac i Gymru?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 1 Hydref 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 18/09/2024 i'w hateb ar 25/09/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ61563 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi leol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Lesley Griffiths** *Wrecsam*

2 OQ61569 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am brosiect Porth Wrecsam?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ61561 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector bancio i sicrhau hybiau bancio yn Nwyrain De Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OQ61559 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi eu cael gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch mesur gwerth economaidd creu sefydliadau hyfforddiant meddygol newydd mewn gwahnaol rannau o Gymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

5 OQ61548 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd ardaloedd menter?

**Buffy Williams** *Rhondda*

6 OQ61554 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i greu swyddi gwyrdd mewn trefi, a chymoedd ôl-ddiwydiannol fel y Rhondda?

**Peter Fox** *Mynwy*

7 OQ61572 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog rhieni plant ifanc yn ôl i'r gweithlu?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ61577 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am ddarparu prentisiaethau yng Nghymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

9 OQ61544 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r economi ym Mhreseli Sir Benfro?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ61555 **(e)**

Pa fewnbwn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael i'r prosesau cynllunio o ran y cynnig arfaethedig ar gyfer datblygiad galluogrwydd radar uwch y gofod pell yn Sir Benfro?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

11 OQ61565 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod allforion Cymru yn fwy niwtral o ran carbon?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

12 OQ61576 **(w)**

Pa ganllawiau mae'r Llywodraeth yn eu darparu i awdurdodau lleol ynghylch ystyried anghenion pobl ag anableddau wrth baratoi cynlluniau gofodol?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

1 OQ61574 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog pobl i ymuno â gweithlu'r GIG yng Ngogledd Cymru?

**Lee Waters** *Llanelli*

2 OQ61551 **(e)**

Faint o fyrddau iechyd sydd â chynlluniau teithio ar waith ar gyfer staff a chleifion, a beth yw’r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynlluniau hyn?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

3 OQ61567 **(e)**

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sef 'Cysylltu’r dotiau: mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru'?

**Buffy Williams** *Rhondda*

4 OQ61549 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lefel y galw y mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn ei wynebu ers y pandemig?

**Peter Fox** *Mynwy*

5 OQ61571 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi cleifion sydd wedi cael gofal dwys?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

6 OQ61560 **(w)**

Ar sail pa dystiolaeth y gwnaeth Llywodraeth Cymru roi cefnogaeth i leoli uned mamau a babanod yng Nghaer ar gyfer teuluoedd o ogledd Cymru?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

7 OQ61575 **(w)**

Pa fesurau neu wersi y bydd Llywodraeth Cymru yn eu hystyried ar gyfer Cymru mewn ymateb i adolygiad diweddar y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr i'r dynladdiadau a gyflawnwyd gan Valdo Calocane yn Swydd Nottingham?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

8 OQ61543 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd ym Mhreseli Sir Benfro?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

9 OQ61552 **(e)**

Pa gamau y mae’r Ysgrifennydd Cabinet yn eu cymryd i wella'r drefn o reoli atgyfeiriadau cleifion ar gyfer triniaeth y tu allan i Gymru?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

10 OQ61556 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer trin canserau gynaecolegol yng Ngogledd Caerdydd?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

11 OQ61547 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad am amseroedd ymateb ambiwlansys?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

12 OQ61558 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am fynediad pobl anabl at y gwasanaeth iechyd?